# Troswyr ffôn symudol

## Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Troswyr Symudol) (Eithriad) 2022

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd: 24 Hydref 2023
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 4 Rhagfyr 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................3

# 1. Trosolwg

1.1 Weithiau gall dyfeisiau trosi hunan-osod ddarparu opsiwn da i bobl sy'n ceisio rhoi hwb i signalau ffonau symudol dan do mewn mannau lle mae signal y rhwydwaith yn wael. Gellir gosod a defnyddio'r dyfeisiau heb fod angen trwydded telegraffiaeth ddi-wifr ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r telerau, y darpariaethau a'r cyfyngiadau a nodir yn Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Troswyr Symudol) (Eithriad) 2022 ('Rheoliadau 2022').

1.2 Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 2022 yn datgan bod yn rhaid i **droswyr dan do sefydlog** a ddyluniwyd i hybu signal symudol 4G hefyd drosi signal 2G a/neu 3G, neu gefnogi'r bandiau amledd 2G/3G a ddefnyddir gan weithredwyr rhwydweithiau symudol (MNO). Mae hyn er mwyn sicrhau bod signal argyfwng 2G neu 3G '999' ar gael bob amser, os oes angen.

1.3 Fodd bynnag, mae'r MNO yn dechrau diffodd eu signalau 3G i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau 4G a 5G. Rydym yn disgwyl iddynt hefyd ddiffodd eu signalau 2G yn y dyfodol. O ganlyniad, efallai na fydd rhai troswyr sydd eisoes wedi'u cynhyrchu a'u prynu gan ddefnyddwyr ar y sail eu bod wedi'u heithrio rhag trwydded bellach yn gallu bodloni gofynion Rheoliadau 2022 a byddant yn dod yn anghyfreithlon heb drwydded (neu'n stopio gweithio p'un bynnag) heb unrhyw fai ar y gwneuthurwyr na'r defnyddwyr.

1.4 Am y rheswm hwn, rydym wedi ystyried a yw'r gofyniad yn Rheoliadau 2022 i droswyr 4G hefyd drosi signalau 2G / 3G yn parhau i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

1.5 Ar yr un pryd, rydym wedi ystyried a ddylid diweddaru'r gofynion technegol ar gyfer **troswyr symudol mewn cerbydau** i'w galluogi i chwyddo rhai signalau 5G, gan adlewyrchu darpariaethau sydd eisoes ar waith ar gyfer troswyr dan do sefydlog.

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig – yn gryno**

Rydym yn cynnig:

- Dileu'r gofyniad i droswyr dan do sy'n rhoi hwb i signal 4G hefyd gario signal neu amlder 2G a/neu 3G er mwyn bod wedi'i eithrio rhag trwydded. Bydd hyn yn caniatáu gosod a defnyddio troswyr 4G yn unig, yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau technegol sy'n weddill sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau eithrio trwyddedau.
- Diweddaru'r rheoliadau a'r Gofynion Rhyngwyneb cysylltiedig i alluogi troswyr symudol mewn cerbydau i chwyddo signalau yn y band 700 MHz, a'u gwneud yn dechnoleg-niwtral. Mae hyn yn eu galluogi i drosi signalau 5G yn y bandiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofyniad Rhyngwyneb.

Wrth gynnig y newidiadau hyn, rydym yn rhoi rhybudd statudol ffurfiol o'n bwriad i wneud rheoliadau newydd o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, sy'n diwygio Rheoliadau 2022.